Teitl:	**Swyddog Gwasanaeth Preswyl**
Lleoliad:	**Tŷ Augusta, Glynebwy NP23 8DN**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Swydd Rhif:	**BG02989**
Cyflog:	**Gradd 5 (£25,409 - £28,371 rata/y flwyddyn)**
Oriau:	**20 awr yr wythnos**
Contract:	**Parhaol**

Crynodeb Swydd

Mae'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol angen Swyddog Gwasanaeth Preswyl i gynorthwyo gyda darparu gofal a aseswyd i unigolion drwy drefnu a chymryd rhan mewn rhaglenni a gynlluniwyd ar gyfer cynyddu potensial a chyflawniad unigolion i'r eithaf.

Hysbyseb Lawn

Fel Swyddog Gwasanaeth Preswyl byddwch yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth gydag agweddau o'u bywyd bob dydd ac yn datblygu sgiliau byw annibynnol gan roi ystyriaeth i'w llesiant corfforol, emosiynol a seicolegol. Byddwch hefyd yn datblygu a chynnal perthynas waith effeithlon gyda staff, defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a swyddogion proffesiynol, derbyn, rhoi a chofnodi gwybodaeth am ddarpariaeth unigol y gwasanaethau gofal personol a sicrhau y gwneir gwaith i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a gytunwyd i gydymffurfio gyda Rheoliadau Safonau Gofal.

Yn hanfodol ar gyfer y swydd mae NVQ lefel 3 mewn Gofal a phrofiad o weithio gydag unigolion gydag anabledd dysgu. Os na wnaethoch hynny'n flaenorol, mae'n rhaid i chi hefyd fod yn fodlon dilyn hyfforddiant cludiant MiDAS er mwyn medru gyrru bws mini bach a addaswyd.

Mae'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd hon yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n sylfaen i amgylchedd gofal ansawdd uchel
- y gallu i hyrwyddo hawliau, urddas a dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth
- y gallu i wneud tasgau ymarferol a rhoi cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth wrth gynorthwyo gyda'u hanghenion personol
- y gallu i ysgrifennu, gweithredu, monitro ac adolygu cynlluniau cefnogaeth unigol/cynlluniau gofal unigol defnyddwyr gwasanaeth
- gwybodaeth o POVA

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau **30/03/2023 – canol nos**

Dyddiad Cyfweliadau